Gwywiad Coed Ynn (clefyd Chalara) – Ymateb Cymru (2016)

Crynodeb

1. Mae gwywiad coed ynn wedi'i hen sefydlu ar draws Cymru a bydd yn parhau i ledaenu. Mae deddfwriaeth genedlaethol y DU ar iechyd planhigion[1] ar hyn o bryd yn gwahardd holl fewnforion a symudiad mewnol hadau, planhigion a choed ynn.
2. Gall coed hŷn oroesi haint am nifer o flynyddoedd, ac o bosib ni fydd rhai yn marw o ganlyniad i'r clefyd hwn. Hyd nes y gellir nodi'r coed sy'n gallu gwrthsefyll a/neu sy'n gallu goddef y clefyd, a'u hatgynhyrchu, ac oni bai y codir y gwaharddiad ar symud hadau, planhigion a choed ynn, ni ddylid plannu unrhyw rywogaethau ynn yng Nghymru; dylid defnyddio rhywogaethau llydanddail eraill yn eu lle. I wneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer gwrthsefyll clefyd Chalara coed ynn yn y dyfodol, ni ddylid torri coed heintiedig i lawr yn rheolaidd ond dylid eu rheoli er diogelwch y cyhoedd.
3. Ni cheir unrhyw gyfyngiadau ar symudiad pren onnen.
4. Nodir pum blaenoriaeth allweddol mewn ymateb i bresenoldeb clefyd Chalara coed ynn yng Nghymru; ymchwil, gwyliadwriaeth a monitro, mesurau proffylactig, mesurau adweithiol, a chyfathrebu. Awgrymir nifer o gamau gweithredu ar gyfer pob blaenoriaeth a restrir.

Cynulleidfa

5. Y brif gynulleidfa ar gyfer y ddogfen hon yw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru yn y sectorau coedwigaeth, coedyddiaeth a garddwriaeth, y gymuned ffermio, llywodraeth leol, asiantaethau priffyrdd, Network Rail, cadwraeth a chyrff perthnasol. Cedwir copi ar dudalennau Iechyd Coed Llywodraeth Cymru[2].
6. Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru (WT a PHSG) sydd berchen ar y ddogfen ymateb hon a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd ganddo.

Cefndir a Chyd-destun

7. Pennir camau gweithredu ar gyfer iechyd coed a choedwigoedd Cymru o fewn yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy a nodir yn Coetiroedd i Gymru[3], strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed, ac yn Safon Coedwigaeth y DU[4]. Mae'n rhaid i gamau o'r fath ystyried nodau Safbwynt Polisi Llywodraeth Cymru ar Fioamrywiaeth[5] a gofynion polisi eraill[6]. Nid yw deddfwriaeth sy'n ymwneud â materion iechyd planhigion yn diystyru gofynion deddfwriaethol eraill – ac i'r gwrthwyneb.

---

[1] The Plant Health (Forestry) (Amendment) Order 2012 (http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/2707/pdfs/uksi_20122707_en.pdf/$FILE/uksi_20122707_en.pdf)
[2] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/tree-health/?skip=1&lang=cy
[3] http://gov.wales/docs/drah/publications/090324-woodlands-for-wales-strategy-cy.pdf
[4] http://www.forestry.gov.uk/ukfs
[5] http://gov.wales/docs/drah/publications/130424-biodiversity-cy.pdf
[6] Megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy)

8. Mae gwywiad coed ynn (Chalara) yn glefyd a achosir gan y ffwng *Hymenoscyphus faxineus* (a alwyd gynt yn *Chalara fraxinea* a dyna pam y defnyddir y term 'clefyd Chalara coed ynn'). Gall y pathogen hwn arwain at golli dail, briwiau ar y coesyn, gwywo o'r pen i'r coesyn a marwolaeth, yn enwedig mewn onnen gyffredin. Mae ei effaith yn dibynnu ar oedran y goeden, tarddiad/genoteip, lleoliad, amodau tywydd a microhinsawdd, a phresenoldeb ffwng mêl (*Armillaria* spp) neu bathogenau eilaidd manteisgar. Gall coed hŷn oroesi haint am lawer o flynyddoedd, ac o bosib ni fydd rhai yn marw.
9. Nid yw'n ymarferol cael gwared ar glefyd Chalara coed ynn yn yr amgylchedd ehangach ac nid oes unrhyw iachâd i goed sydd eisoes wedi'u heintio.
10. Mae effeithiau clefyd Chalara coed ynn yng Nghymru yn debygol o fod yn debyg iawn i'r rhai hynny a ragfynegir ar gyfer yr Alban[7]: colli coed ynn o bosib ar gyfer coedwriaeth a rheoli coetiroedd; gostyngiad ym mioamrywiaeth bresennol Cymru; costau ariannol i berchnogion; goblygiadau cymdeithasol ac o ran tirwedd mewn ardaloedd trefol, yn ogystal ag ardaloedd gwledig; a chostau uchel sy'n gysylltiedig â rheoli coed ar y stryd a'r rhai hynny sy'n agos at rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.
11. Mae clefyd Chalara coed ynn wedi bod yn destun deddfwriaeth iechyd planhigion genedlaethol y DU1 ers ei ganfod am y tro cyntaf yn y DU yn 2012. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwahardd holl fewnforion a symudiadau mewnol hadau, planhigion a choed ynn. Yn ogystal â hyn, gellir cymryd camau statudol eraill yn y DU, pan fo'n briodol, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol dinistrio coed heintiedig.

Y sefyllfa bresennol yng Nghymru

12. Mae coed ynn mewn coetiroedd sy'n fwy na 0.5 hectar o ran maint yn cwmpasu 17,600 o hectarau yng Nghymru (6.8% o'r holl goetiroedd)[8]. Yn ogystal â hyn, ceir 2,000 o hectarau ychwanegol o goed ynn yng nghoetiroedd Cymru sy'n llai na 0.5 hectar. Dosberthir coed ynn yn eang ar draws Cymru ac eithrio'r rhanbarthau â'r mynyddoedd uchaf, er bod rhai o'r crynoadau mwyaf ar hyd ffin Mynyddoedd Cambria ac mewn rhannau o Eryri. (Gweler Atodiad1: Mapiau 1-3.)
13. Mae coed ynn ymysg y coed mwyaf cyffredin mewn gwrychoedd, parciau a gerddi ac ar ochrau'r ffyrdd a rhwydweithiau rheilffordd. Hefyd, mae'n un o'r coed hŷn mwyaf gwasgaredig a niferus, yn aml wedi'u tocio ac yn bwysig iawn i fywyd gwyllt.
14. Yn 2012, canfuwyd clefyd Chalara coed ynn yn gyntaf mewn nifer o safleoedd 'plannu newydd' yng Nghymru. Cafodd y casgliadau o goed ynn ifanc a oedd yn cynnwys coed a oedd yn dangos symptomau, eu dinistrio ar y safle mewn ymgais i leihau lledaeniad y clefyd.
15. Er y canfuwyd y clefyd Chalara coed ynn am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2012, bu'n bresennol yma am nifer o flynyddoedd cyn hynny.
16. Gweithredwyd mesurau hylendid planhigion i reoli clefyd Chalara coed ynn ar unwaith ar ôl ei ganfod gyntaf yn 2012. Fodd bynnag, gan fod y clefyd wedi bod yn bresennol yn hirach nag a dybiwyd yn y lle cyntaf, mae clefyd Chalara coed ynn wedi lledaenu'n dipyn cyflymach

---

7 http://www.forestry.gov.uk/pdf/WorrellReport-ChalaraImpacts.pdf/$file/WorrellReport-ChalaraImpacts.pdf

8 Amcangyfrifon cychwynnol y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol o nifer y rhywogaethau llydanddail yng nghoetiroedd Prydain, gan ganolbwyntio'n benodol ar goed ynn. (Comisiwn Coedwigaeth, 2013). http://www.forestry.gov.uk/pdf/NFI_Prelim_BL_Ash_Estimates.pdf/$FILE/NFI_Prelim_BL_Ash_Estimates.pdf

nag a ragwelwyd gan waith modelu a wnaed gan Brifysgol Caergrawnt yn 2013, a bellach gwyddys ei fod wedi'i sefydlu yn yr amgylchedd ehangach ar draws Cymru.

17. Nid ystyrir arafu lledaeniad y clefyd yng Nghymru yn ymarferol mwyach.
18. Yn Atodiad 2, ceir map yn dangos gwasgariad y clefyd Chalara coed ynn sy'n hysbys yn yr amgylchedd ehangach yng Nghymru, ym mis Hydref 2016. Gallwch weld gwasgariad presennol clefyd Chalara coed ynn yn y DU[9] ar wefan clefyd Chalara coed ynn y Comisiwn Coedwigaeth[10].
19. O ystyried y prognosis ar gyfer clefyd Chalara coed ynn yng Nghymru, ni ellir cyfiawnhau ceisio statws Ardal Warchod yr UE.
20. Drwy gydweithio â rhanddeiliaid, bydd pwyslais yn cael ei roi ar weithredoedd ymaddasol megis bancio hadau, asesu nodweddion tueddiad isel, monitro a chadw coed ynn heb unrhyw symptomau a monitro newidiadau amgylcheddol mewn sampl o werth cadwraeth natur uchel (HNCV) coetiroedd coed ynn.
21. Hefyd, mae achos da yn parhau i fod ar gyfer hyrwyddo gweithredoedd gwirfoddol megis cael gwared ar goed peryglus neu gyfnewid coed ynn ifanc, heintiedig am rywogaethau eraill i gynnal manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylchedd.

Amcanion strategol

22. Prif amcanion y cynllun hwn yw:
    a. Helpu i gadw buddion coetiroedd coed ynn;
    b. arwain ac annog tirfeddianwyr, dinasyddion a diwydiant i fonitro, gweithredu a chymryd rhan mewn gwyliadwriaeth mewn ymateb i glefyd Chalara coed ynn; a.
    c. meithrin cadernid economaidd ac amgylcheddol ar gyfer hyn a phlâu a chlefydau eraill.

Blaenoriaethau allweddol

23. Rhestrir isod y prif weithredoedd yn y meysydd blaenoriaeth, sef ymchwil, monitro a gwyliadwriaeth, mesurau adweithiol a phroffylactig, a chyfathrebu. Fe'u dangosir mewn mwy o fanylder yn Atodiad 3.
24. **Ymchwil**
    a. Cynnal capasiti trawsffiniol ar gyfer gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth ac ymchwil ar lefel Prydain (e.e. a ariennir gan Defra) i gynyddu ein dealltwriaeth ar y cyd o bob agwedd berthnasol o glefyd Chalara coed ynn.
    b. Gwella ein dealltwriaeth o effaith clefyd Chalara coed ynn ar ecoleg coetiroedd coed ynn HNCV.
    c. Monitro tueddiad coed ynn a thriniaethau posibl ar gyfer clefyd Chalara coed ynn.
25. **Gwyliadwriaeth a monitro**
    a. Cynnal gwaith asesu ar sail ffeithiau, y gallu i roi diagnosis a gwyliadwriaeth wedi'i thargedu ar gyfer clefyd Chalara coed ynn yng Nghymru
    b. Defnyddio gwyddoniaeth y dinesydd i helpu i adeiladu capasiti iechyd coed a chynorthwyo â'r gwaith o fonitro clefyd Chalara coed ynn.

---

9 http://chalaramap.fera.defra.gov.uk/
10 http://www.forestry.gov.uk/ashdieback

26. **Mesurau proffylactig**
    a. Annog cymhwyso canllawiau ar reoli coetiroedd coed ynn mewn ymateb i'r bygythiad o glefyd Chalara coed ynn.
    b. Hwyluso bancio hadau coed ynn ar draws eu hamrywiaeth enetig yng Nghymru.
27. **Mesurau adweithiol**
    a. Hyrwyddo ac arwain y gwaith o weithredu mesurau rheoli gwirfoddol ar gyfer coed a choetiroedd sydd wedi'u heintio â chlefyd Chalara coed ynn.
28. **Cyfathrebu**
    a. Sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir ar y we am glefyd Chalara coed ynn yng Nghymru yn parhau i fod yn gyfredol.
    b. Codi ymwybyddiaeth mewn gwahanol sectorau o glefyd Chalara coed ynn a'r gwaith o'i reoli (gweler paragraff 5 – 'Cynulleidfa').

Adrodd ar gynnydd

29. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu'n flynyddol gan Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Llywodraeth Cymru.
30. Caiff cynnydd yn erbyn Atodiad 3 ei adolygu ar sail 'adrodd ar eithriadau' ym mhob un o gyfarfodydd Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Llywodraeth Cymru .

Trefniadau wrth gefn

31. Caiff arolwg ei sbarduno ar unwaith gan:
    a. Newidiadau sylweddol i statws rheoliadol clefyd Chalara coed ynn yn y DU; neu
    b. Datblygiadau sylweddol o ran triniaeth cost effeithiol o glefyd Chalara coed ynn yn yr amgylchedd ehangach.

Paratowyd gan: Tom Jenkins (Llywodraeth Cymru) a Chris Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru), Tachwedd 2016, yn seiliedig ar gynllun gweithredu ar Chalara ar gyfer yr Alban[11] a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth yr Alban[12])

Cymeradwywyd gan: Chris Lea, Cadeirydd, Grŵp Llywio Iechyd Coed a Phlanhigion Cymru (Tachwedd 2016)

Adolygwyd erbyn: Tachwedd 2017

[11] http://scotland.forestry.gov.uk/images/corporate/pdf/chalara-action-plan-scotland.pdf
[12] http://scotland.forestry.gov.uk/supporting/forest-industries/tree-health/chalara-ash-dieback

Atodiad 1 – Coed Ynn yng Nghymru



CEH – Ash Woodlands <0.5ha	Canolfan Ecoleg a Hydroleg – Coetiroedd Coed Ynn <0.5ha
Legend	Allwedd

Ash distribution	Gwasgariad coed ynn
hectars per square kilometer	hectarau fesul cilometr sgwâr

Map 1 Gwasgariad coetiroedd coed ynn sy'n llai na 5 hectar yng Nghymru yn seiliedig ar ddata a gedwir gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH), yn dilyn arolwg cefn gwlad a gynhaliwyd yn 2007. (Data Arolwg Cefn Gwlad sy'n eiddo i Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) – Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Arolwg Cefn Gwlad © Hawl Cronfa Ddata/Hawlfraint NERC– Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Cedwir pob hawl.)

Ash – Individual Trees >10	Coed Ynn – Coed Unigol >10
Legend	Allwedd
Distribution of individual ash trees	Gwasgariad coed ynn unigol
(mean number of trees per square km)	(nifer cymedrig o goed fesul cilometr sgwâr)

Map 2 Gwasgariad coed ynn unigol (pan geir mwy na 10 coeden fesul cilometr sgwâr) yn seiliedig ar ddata a gedwir gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH), yn dilyn arolwg cefn gwlad a gynhaliwyd yn 2007. (Data Arolwg Cefn Gwlad sy'n eiddo i Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) – Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Arolwg Cefn Gwlad © Hawl Cronfa Ddata/Hawlfraint NERC– Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Cedwir pob hawl.)

Ash - Woody Linear Features (CEH)	Coed Ynn – Nodweddion Llinellol Prennaidd (Canolfan Ecoleg a Hydroleg)
Legend	Allwedd
Ash Linear Features	Nodweddion Llinellol coed ynn
(mean km per square km)	(km cymedrig fesul cilometr sgwâr)

Map 3 Gwasgariad nodweddion llinellol coed ynn (pan geir mwy na 400 o fetrau fesul cilometr sgwâr) yn seiliedig ar ddata a gedwir gan Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH), yn dilyn arolwg cefn gwlad a gynhaliwyd yn 2007. (Data Arolwg Cefn Gwlad sy'n eiddo i Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) – Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Arolwg Cefn Gwlad © Hawl Cronfa Ddata/Hawlfraint NERC– Canolfan Ecoleg a Hydroleg. Cedwir pob hawl.)

Atodiad 2 – Gwasgariad clefyd Chalara coed ynn yng Nghymru



Ash Dieback infections in Wales	Heintiau clefyd Chalara coed ynn yng Nghymru
10km squares	Sgwariau 10cm
New planting	Plannu newydd
Wider environment	Amgylchedd ehangach

Confirmed by FC England	Wedi'u cadarnhau gan Gomisiwn Coedwigaeth Lloegr

Map 4

Graddau'r achosion o *Hymenoscyphus fraxineus* a gadarnhawyd ar goed ynn yng Nghymru ar 22 Tachwedd 2016. Nodwch: nodwyd o leiaf un goeden heintiedig ym mhob sgwâr sydd wedi'i huwcholeuo a gallai'r sgwariau nad ydynt wedi'u huwcholeuo gynnwys coed sy'n dangos symptomau na chawsant eu canfod hyd yn hyn.

Atodiad 3 – Clefyd Chalara coed ynn – Ymateb Cymru (2016) – Camau gweithredu manwl

Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a restrir dan y pum blaenoriaeth allweddol yn ymgymryd â'r gwaith o gynnal a chadw capasiti trawsffiniol gweithredol ar gyfer gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, gwaith ymchwil a monitro (e.e a ariennir gan Defra) ar lefel Prydain er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth ar y cyd o bob agwedd berthnasol o glefyd Chalara coed ynn.

Blaenoriaeth allweddol	Camau gweithredu a awgrymir	Mecanwaith	Sut	Blaenoriaeth (U, C, I)
Ymchwil	Monitro tueddiad coed o gael y clefyd a deall mecanweithiau ymwrthedd a goddefiad drwy ymgysylltu â Forest Research, pobl broffesiynol berthnasol sy'n gweithio â choed, gwirfoddolwyr Observatree a dinasyddion gwyddonol eraill. Monitro'r potensial ar gyfer croesi â choed ynn anfrodorol, sydd ag ymwrthedd.	Nodi coed posibl sydd â goddefiad a/neu sydd ag ymwrthedd. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser i ymwrthedd cryf gael ei nodi yn y maes.	Rhoi gwybod i Forest Research am goed yr ymddengys nad effeithiwyd arnynt, y gellid o bosib eu defnyddio i gynhyrchu stoc plannu coed ynn a chanddynt ymwrthedd neu oddefiad.	U
		LIC, CNC, FR (Forest Research) a swyddogion LIC i gadw briff gwylio ar ymchwil, yn cynnwys genomeg.	Rhwydweithio, yn enwedig drwy Grwpiau "Llywio" a "Gwyliadwriaeth" Iechyd Coed a Phlanhigion Llywodraeth Cymru. Aelodau staff perthnasol i gymryd rhan yn rheolaidd mewn cyfarfodydd iechyd coed aml-asiantaeth a thrawsffiniol.	C
	Monitro newidiadau ecolegol mewn coetiroedd coed ynn o werth cadwraeth natur uchel (HNVC) yng Nghymru.	Datblygu cynllun strwythuredig i fonitro newidiadau ecolegol mewn coetiroedd coed ynn (Cymru)	Mewnol. Dylai trafodaethau gynnwys CNC a rhanddeiliaid allanol megis Coed Cadw, Coed Cymru ac ymddiriedolaethau bywyd gwyllt.	U
	Nodir triniaethau posibl	Cynnal briff gwylio ar ddatblygiadau masnachol ac ymchwil.	Rhwydweithio. Mae'n fwyaf tebygol o fod yn driniaethau coed unigol. Gall masnacheiddio a thrwyddedu cynhyrchion gymryd amser (ac arian).	U

	Ymchwilio i effeithiau posibl mewn amgylcheddau nad ydynt yn goetiroedd (e.e. trefol, coridorau trafnidiaeth, parciau, *ac ati*.)	Ymchwilio i fethodoleg a gweithredu prosesau cytunedig. Ceir prosiect a ariennir gan Defra yn ymwneud â choed ynn nad ydynt mewn coetiroedd.	O bosibl drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd. Bydd angen ymgysylltu'n weithredol â chyrff proffesiynol coedyddiaeth, awdurdodau lleol, awdurdodau trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, *ac ati*.	C

Blaenoriaeth allweddol	Camau gweithredu a awgrymir	Mecanwaith	Sut	Blaenoriaeth (U, C, I)
Gwyliadwriaeth a monitro	Monitro lledaeniad Chalara mewn hectadau lle nad yw presenoldeb y clefyd yn hysbys eto a hefyd ledaeniad lleol y clefyd o fewn hectadau lle mae'r clefyd wedi'i nodi.	Casglu ffeithiau ategol am adweithedd o adroddiadau amgylcheddol ehangach mewn hectadau newydd. Cofnodi (a geogyfeirio) adroddiadau o ledaeniad lleol o fewn hectadau.	Aelodau o'r cyhoedd a phobl broffesiynol sy'n gweithio â choed i gofnodi adroddiadau drwy Tree Alert. Arolygon mewnol (a arweinir gan CNC). Defnydd posibl o wirfoddolwyr Observatree a dinasyddion gwyddonol eraill.	C
		Cynnal capasiti priodol ar gyfer rhoi diagnosis, e.e. drwy Forest Research.	Dialog gyda darparwyr ymchwil sydd â'r gallu i gynnig capasiti i roi diagnosis sy'n briodol, dibynadwy ac yn amserol.	U
	Asesu a gweithredu sgrinio ehangach *drwy* drapio sborau.	Cadarnhau technoleg a datblygu rhesymeg/protocol ar gyfer gweithredu.	Gweithio'n agos gyda gwyddonwyr iechyd coed yn Forest Research. Archwilio'r posibilrwydd i ddefnyddio gwirfoddolwyr Obervatree yn ystod y cam gweithredu.	C
	Ymgysylltu â gwyddoniaeth y dinesydd (CS) i adeiladu capasiti iechyd coed a chynorthwyo â'r gwaith o fonitro lledaeniad ac effaith clefyd Chalara coed ynn.	Observatree (yn bennaf), ond hefyd cyrff â phrofiad blaenorol o wyddoniaeth y dinesydd (e.e.) Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO) a Chymdeithas Fiolegol Ynysoedd Prydain.	Gweithio'n agos â Forest Research a Coed Cadw i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr Observatree yng Nghymru. Hefyd, dylai'r weithred hon wasanaethu er budd Gwyliadwriaeth Iechyd Coed ehangach.	U
	Ymgysylltu â gwyddoniaeth y dinesydd ynglŷn â monitro bioamrywiaeth.	Cofnodi ar y we gan naturiolwyr gwirfoddol. Ymchwilio i ddefnydd ffurflen adrodd y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg/y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.	Defnydd posibl o wirfoddolwyr Observatree	I

Blaenoriaeth allweddol	Camau gweithredu a awgrymir	Mecanwaith	Sut	Blaenoriaeth (U, C, I)
Mesurau proffylactig	Annog y defnydd o ganllawiau ar reoli coetiroedd coed ynn.	Cyhoeddi canllawiau dros dro ar reoli coed ynn a choetiroedd ynn [HNCV][13]. Efallai y bydd angen cysylltu â JNCC.	Canllawiau ar y we gan CNC a/neu LIC a/neu FCGB (FC).	U
		Adolygu a diwygio (os oes angen) ganllawiau sydd eisoes yn bodoli ar y we, ynglŷn â rheoli coetiroedd ynn/coed ynn eraill. Rhwydweithio â chyrff arbenigol eraill sy'n rheoli coed unigol/trefol. Gall gysylltu â chanllawiau Ancient Tree Forum/Tree Council ar reoli coed hynafol.	Canllawiau ar y we gan CNC a/neu LIC a/neu FCGB (FC).	U
		Cael gwared ar goed ynn yn wirfoddol oddi ar safleoedd coed newydd eu plannu sy'n ddi-haint a'u hailstocio â rhywogaethau coed eraill sy'n addas.	Cyswllt Ffermio a Choedwigaeth a chanllawiau ar-lein. Posibilrwydd i gael cymorth grant gan Adfer Coetir Glastir a/neu archwilio'r posibilrwydd o hepgor y gallu i hawlio'n ôl grantiau blaenorol.	I
	Parhau â'r gwaharddiad ar blannu coed ynn. (Ymddengys bod y galw'n parhau, er gwaethaf y prognosis, am gcoed ynn.)	Ni ddarperir cymorth grant lle caiff coed ynn eu plannu. (Nid yw hyn yn rhwystro tirfeddianwyr rhag parhau i blannu coed ynn heb gymorth grant.)	Rheolau Glastir. Mae angen codi ymwybyddiaeth (drwy Gyswllt Ffermio a Choedwigaeth a/neu Wasg Fasnachol). Canllawiau ar y we gan CNC a/neu LIC a/neu FCGB (FC).	C

[13] Gweler (e.e.): Mitchell R.J. *et al*. (2014) *Ash dieback in the UK: A review of the ecological and conservation implications and potential management options*. Biological Conservation 175, tt 95-109.

	Gweithio gyda Lloegr, yr Alban (a Gogledd Iwerddon) i sefydlu banc hadau ar gyfer hadau ynn ar draws eu hamrywiaeth eneteg yng Nghymru a'r DU.	Casglu hadau coed ynn oddi ar y safle ar draws eu hamrywiaeth enetig yng Nghymru (a'r DU).	Drwy Brosiect Hadau Coed Cenedlaethol y DU (UKNTSP). Storio gan ddefnyddio Banc Hadau'r Mileniwm, Gerddi Botaneg Brenhinol Kew.	U

Blaenoriaeth allweddol	Camau gweithredu a awgrymir	Mecanwaith	Sut	Blaenoriaeth (U, C, I)
Mesurau Adweithiol	Annog y defnydd o ganllawiau ar reoli coetiroedd coed ynn.	Cael gwared yn wirfoddol ar goed ynn heintiedig sydd newydd eu plannu a'u hailstocio â rhywogaethau coed eraill addas yn eu lle.	Canllawiau/cymorth ar gyfer ailstocio (rhywogaethau eraill) a gwaith cynghorol (yn cynnwys CNC a Chyswllt Ffermio a Choedwigaeth). Hawlio'n ôl grantiau a hepgorwyd ar gyfer safleoedd heintiedig os caiff rhywogaethau eraill addas eu hailblannu yno.	C
	Atal/annog pobl i beidio â thorri coed sy'n dangos symptomau, yn awtomatig.	Mesurau rheoliadol a/neu addysg i atal/annog pobl i beidio â thorri coed i lawr yn awtomatig. Mae mesurau presennol sydd ar waith yn rhoi rhywfaint o amddiffyniad.	Sefydlu meini prawf mewn cysylltiad â thrwyddedau ar gyfer torri coed. Ystyried trothwyon blaenorol ar gyfer clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd (DED). Gorchmynion amddiffyn coed (TPO).	C
	Annog rheoli deiliach marw mewn modd priodol.	Cynghorol. Ond yn debygol o fod yn gymwys i goed mewn gerddi/parciau a choed hynafol/enghreifftiol gwerthfawr.	Canllawiau presennol ar waith. Adolygu a diweddaru canllawiau ar y we. Cysylltu ag arbenigwyr ym maes rheoli coed unigol/trefol.	I

Blaenoriaeth allweddol	Camau gweithredu a awgrymir	Mecanwaith	Sut	Blaenoriaeth (U, C, I)
Cyfathrebu	Sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig yn gyfredol.	Diweddaru gwefannau CNC a FC (FR). Efallai y bydd angen i negeseuon amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau'r wlad.	Adolygiad chwarterol (yn amlach os yw'r sefyllfa'n newid yn sylweddol). Ategwch, ond peidiwch â dyblygu mentrau Prydeinig.	U
	Gwella ymwybyddiaeth broffesiynol o glefyd Chalara coed ynn a'r gwaith o'i reoli yn y sectorau coedwigaeth, coedyddiaeth, garddwriaethol a thirwedd (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn Awdurdodau Lleol, Asiantaethau Priffyrdd a Network Rail).	Defnyddio'r wasg fasnachol. Lledaenu gwybodaeth drwy (e.e.) Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Arboricultural Association, Confor, National Association of Tree Officers, Horticultural Trades Association a'r Sefydliad Tirwedd.	Erthyglau cyffredin. Pwyslais arbennig pan fo'r sefyllfa'n newid yn sylweddol. Ategwch, ond peidiwch â dyblygu mentrau Prydeinig.	C/U
		Diweddariadau wyneb yn wyneb.	Forest Health Days (dau y flwyddyn ar hyn o bryd – un yn y gogledd, un yn y de) wedi'u trefnu gan CNC a'u cyflwyno gan Forest Research. Posibilrwydd seminarau arbennig (wedi'u targedu) mewn cyfarfodydd cyrff proffesiynol a/neu sefydliadau masnachu.	
	Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o glefyd Chalara coed ynn a'r gwaith o'i reoli.	Defnyddio'r wasg boblogaidd, y wasg arddio a'r wasg leol.	Erthyglau cyffredin i ategu mentrau Prydeinig.	C
		Teledu/Radio.	Cyfweliadau (bydd angen aelodau staff CNC a LIC sydd wedi'u hyfforddi yn y cyfryngau).	

		Sioeau masnach.	Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Gŵyl Coed Cymru, Sioe Môn, ac ati. Cydgysylltu â Forest Research, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Fera, CNC, Cyswllt Ffermio a Choedwigaeth, ac ati.	